**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 16 MEDI 2020 DYDD MERCHER, 16 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar hyn o pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 4** | **POLISI CLUDIANT RHWNG Y CARTREF AC YSGOL AC ÔL 16: CYMERADWYAETH A CHYHOEDDIAD (ERBYN 1 HYDREF 2020)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Addysg.<br><br>Ar wahoddiad yr Arweinydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg yr adroddiad ac amlinellu’r newidiadau polisi diwygiedig yn Atodiad 1. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Interim na fyddai unrhyw newid i bellter a dychwelyd at derfynau statudol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Addysg fod gan Gynghorau ddyletswydd statudol i gyhoeddi eu polisïau Cludiant Rhwng y Cartref a’r Ysgol ac Ôl 16 erbyn 1 Hydref 2020. Tynnodd sylw Aelodau at Adran 2.3 yr adroddiad sy’n amlinellu fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn fwy hael yng nghyswllt hawl cludiant rhwng y cartref a’r ysgol na therfynau statudol Llywodraeth Cymru a bod hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gefnogi disgyblion a dysgwyr.<br><br>Dywedodd yr Aelod y rhoddwyd ymrwymiad fel rhan o’r adolygiad blynyddol y byddai terfynau pellter y Cyngor yn parhau’r un fath ar gyfer gweddill y weinyddiaeth wleidyddol bresennol a gobeithiai y byddai hyn yn rhoi cysur i rieni.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo’r Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a’r Ysgol ac Ôl-16 2021 **(Atodiad 1)** (Opsiwn 1). | |